# Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

## Cyflwyniad

Mae’r papur hwn yn crynhoi pwerau Gweinidogion Cymru ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth, canllawiau a chyfarwyddiadau fel y'u hamlinellir ym Mil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) (y Bil), fel y’i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Mawrth 2023. Rydym yn nodi hefyd lle credwn y byddai'n ddefnyddiol i’r pwyllgor ddeall sut y bwriedir i Weinidogion Cymru gyflawni rhai o'r dyletswyddau allweddol a roddir arnynt o dan y Bil, megis y ddyletswydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth.

Mae'r papur yn esbonio sut y bwriedir defnyddio'r pwerau a'r dyletswyddau hyn. Mewn perthynas â phwerau gwneud rheoliadau, nodir y cyfiawnhad dros weithdrefn a ddewiswyd gan y Senedd yn nhabl 5.1 y Memorandwm Esboniadol.

Bydd rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau a'r dyletswyddau hyn a gyflawnir o dan y pwerau hyn yn destun ymgynghoriad, felly gallant newid.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y defnydd o bwerau yn y Bil fel y nodir isod ac maent yn fodlon eu bod yn angenrheidiol ac y gellir eu cyfiawnhau.

### Trosolwg o’r Bil

Mae’r Bil yn cynnwys 3 rhan a 2 Atodlen:

- Mae Rhan 1 yn amlinellu'r rhannau o'r Bil sy'n ymwneud ag ansawdd aer, gan gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â:
    - sefydlu fframwaith gosod targedau cenedlaethol;
    - dyletswydd ar Weinidogion i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer;
    - dyletswydd i ymgynghori ar adolygiad neu addasiad i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol o leiaf bob 5 mlynedd;
    - diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â rheoli mwg;
    - cryfhau deddfwriaeth mewn perthynas â rheoli ansawdd aer lleol;
    - ymestyn pwerau i gyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd ac i ehangu'r cyfyngiadau presennol ar ddefnyddio enillion net; a
    - phwerau i amrywio'r hysbysiadau cosb benodedig am y drosedd o segura.
- Mae Rhan 2 yn amlinellu'r gofynion sydd ar Weinidogion o ran llunio strategaeth seinwedd genedlaethol.
- Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau amrywiol, gan gynnwys darpariaethau ar bŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, drosiannol etc, y pwerau gwneud rheoliadau a phryd y bydd darpariaethau penodol yn y Bil yn dod i rym.
- Mae Atodlen 1 yn nodi'r gwelliannau i'r drefn bresennol o ran rheoli mwg.

- Mae Atodlen 2 yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â defnyddio enillion o Gynlluniau Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Cefnffyrdd.

**Dogfennau eraill**

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru);
- Nodiadau Esboniadol y Bil; ac
- Memorandwm Esboniadol y Bil.

## Targedau Ansawdd Aer Cenedlaethol

| Adran | Ffurf | Cynnig | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 1(1) | Rheoliadau | Pŵer i osod targedau ansawdd aer tymor hir mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. | Cadarnhaol |
| 2(1) | Rheoliadau | Dyletswydd i wneud rheoliadau sy'n gosod o leiaf un targed o ran lefel gymedrig blynyddol deunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$) mewn aer amgylchynol yng Nghymru. | Cadarnhaol |

## Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 1(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau ansawdd aer tymor hir yng Nghymru drwy reoliadau. Rhaid i darged a osodir o dan yr adran hon nodi safon ac erbyn pa ddyddiad y dylid cyflawni'r safon. Mae targed yn darged tymor hir os yw'r dyddiad penodedig o leiaf 10 mlynedd wedi'r dyddiad y gosodwyd y targed.

Mae adran 2(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod o leiaf un targed o ran lefel gymedrig blynyddol deunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$) mewn aer amgylchynol yng Nghymru. Mae adran 3(9) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod rheoliadau drafft gerbron y Senedd o fewn tair blynedd i'r dyddiad y mae'r Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

Mae Adran 3 yn cynnwys fframwaith gweithdrefnau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei ddilyn cyn gwneud rheoliadau, ac mae adrannau 5 a 6 yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i adolygu ac adrodd ar y targedau a osodwyd yn y rheoliadau. Mae Adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i gaffael data er mwyn asesu'r cynnydd tuag at gyrraedd y targedau, a sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi.

## Diben a bwriad y polisi

Bydd cylch statudol newydd o osod targedau ansawdd aer, eu monitro, eu cynllunio ac adrodd arnynt yn helpu i gyflawni gwelliant amgylcheddol tymor hir, sylweddol a sicrhau bod y llywodraeth yn cael ei dwyn i gyfrif am ei gweithredoedd. Bydd fframwaith newydd ar gyfer gosod targedau tymor hir sy'n gyfreithiol rwymol yn rhan annatod o'r cylch hwn, ynghyd ag ymrwymiad i osod targed uchelgeisiol a chyfreithiol rwymol ar gyfer Deunydd $Gronynnol_{2.5}$ ($PM_{2.5}$), sef y llygrydd sy'n cael yr effaith fwyaf sylweddol ar

iechyd pobl. Bydd gostyngiadau mewn $PM_{2.5}$ yn sicrhau manteision sylweddol i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, gan arwain at fanteision i'r economi.

Mae Adrannau 2(1) a 3(8) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod targed $PM_{2.5}$ o fewn tair blynedd i'r dyddiad mae'r Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol; amcangyfrifir y bydd hyn erbyn mis Ionawr 2027. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i bob rhanddeiliad y bydd targed ymarferol, uchelgeisiol a fforddiadwy yn cael ei osod yn ystod y cyfnod hwn, gan sicrhau bod digon o amser i roi nifer o gamau gofynnol ar waith cyn gosod targed o’r fath. Mae'r camau'n cynnwys penderfynu ar gwmpas targedau, gofyn am farn arbenigwyr; dadansoddi opsiynau targed i fod yn sail i amrediadau ymarferol, uchelgeisiol a fforddiadwy o lefelau a dyddiadau targed; ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynigion targed; a drafftio a chyflwyno'r rheoliadau targed, gan gynnwys y gofynion manwl ar gyfer sut mae'n rhaid asesu cydymffurfiaeth.

Y bwriad polisi yw sicrhau bod targedau’n cael eu gosod mewn ffordd dryloyw a chydag ymgynghoriad llawn. Bydd y broses yn cael ei llywio gan nifer o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys data a modelau gwyddonol, setiau data hanesyddol, rhagamcaniadau tymor hir i'r dyfodol ac asesiad o'r hyn sy'n ymarferol o safbwynt economaidd-gymdeithasol. Bydd y broses yn un ailadroddus ac yn dibynnu ar gymorth, arbenigedd a chraffu gan eraill.

I gefnogi hyn, mae gwaith yn digwydd ochr yn ochr â'r Bil i lywio datblygiad rheoliadau ar gyfer targedau cenedlaethol newydd, gan gynnwys ar gyfer $PM_{2.5}$. Mae angen sylfaen dystiolaeth gadarn i sicrhau ein bod yn gwneud y dewis cywir i wella ansawdd aer, gyda'r prif ffocws ar ddiogelu iechyd a chefnogi camau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Bydd y dystiolaeth yn llywio opsiynau i Weinidogion ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau amserol ar gynigion targedau i'r dyfodol, gan gynnwys lefelau targed a'r flwyddyn y byddent yn dod i rym (gan ystyried goblygiadau gofynion cyllideb yn y dyfodol).

Mae'r Bil yn gosod gofynion ar Weinidogion Cymru i ofyn am gyngor gan arbenigwyr annibynnol ac i ystyried gwybodaeth wyddonol am lygredd aer cyn gwneud rheoliadau sy'n gosod targedau. Rydym wrthi'n gweithio gyda'r Panel Cynghori ar Aer Glân, yn ogystal â grwpiau sy’n bodoli eisoes yn Llywodraeth y DU, i weithio tuag at gyflawni'r gofynion hyn.

Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 1(1) neu adran 2(1) yn destun ymgynghoriad ac asesiadau effaith llawn i sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig a fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf gan lygredd aer, yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu'r rheoliadau. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol hefyd.

**Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol: Newid y cyfnod adolygu ar gyfer y strategaeth ansawdd aer genedlaethol**

| Adran | Ffurf | Cynnig | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 9(1) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n newid hyd y cyfnod gofynnol ar gyfer adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol. | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pŵer**

Mae Adran 9(1) o’r Bil yn creu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau drwy'r weithdrefn gadarnhaol sy'n newid hyd y cyfnod gofynnol ar gyfer adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae diwygiadau i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol gael ei hadolygu erbyn mis Mai 2023 a phob 5 mlynedd wedi hynny. Ar hyn o bryd, mae'r dyddiadau hyn tua dwy flynedd ar ôl etholiad diweddaraf y Senedd. Mae hyn yn caniatáu i'r adolygiad nesaf o’r strategaeth a'r rhai wedi hynny gael eu llywio gan Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol diweddaraf, y Rhaglen Lywodraethu, ac ati, ond nid yw'n ei osod mor agos at yr etholiad nesaf fel ei bod yn afrealistig i’r rhan fwyaf o'r polisïau a gynhwysir ynddo gael eu gweithredu yn ymarferol gan y llywodraeth bresennol. Bydd y dyddiad cau ar gyfer yr adolygiad cyntaf ar ôl i Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) ddod i rym yn gynnar yn 2028, ddwy flynedd ar ôl etholiad nesaf y Senedd.

Cyn belled â bod etholiad y Senedd yn cael ei gynnal yn rheolaidd bob 5 mlynedd, nid ydym yn gweld unrhyw reswm i newid y cylch adolygu presennol fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Fodd bynnag, os bydd etholiad Senedd eithriadol yn arwain at orfod adolygu'r strategaeth yn rhy fuan ar ôl etholiad i allu cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu sydd i ddod, neu mor hwyr fel nad yw’n realistig i’r weinyddiaeth sy'n ei chyhoeddi ei gweithredu, byddem yn rhagweld y bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, gyda chymeradwyaeth y Senedd, i newid y cylch adolygu fel ei fod yn cyd-fynd â'r cylch etholiadol newydd. Yn ogystal, mae deddfwriaeth bresennol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau penodol (e.e. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol) gael eu cynhyrchu ar adegau penodol i gyd-fynd ag etholiadau'r Senedd. Os cynhelir etholiad eithriadol o’r Senedd, efallai na fydd amseriad y strategaeth ansawdd aer genedlaethol yn cyd-fynd â'r adroddiadau hyn, felly mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid cyfnod adolygu’r strategaeth aer genedlaethol er mwyn eu hailalinio.

**Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol: Dyletswydd ar awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru i roi sylw i strategaeth ansawdd aer genedlaethol**

| Adran | Ffurf | Cynnig | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 11(1) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n dynodi person yn awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru y mae'n rhaid iddo ystyried y polisïau yn y strategaeth ansawdd aer genedlaethol. | Cadarnhaol |
| 11(3) | Canllawiau | Pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru mewn perthynas â'u dyletswydd i roi sylw i'r strategaeth ac unrhyw reoliadau a wneir o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. | Dim gweithdrefn |

**Disgrifiad o'r pŵer**

Mae Adran 11 o'r Bil yn gosod adran 81B newydd yn Neddf yr Amgylchedd 1995, sy'n nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ac "awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru" roi sylw i'r polisïau sydd yn y strategaeth ansawdd aer genedlaethol wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus a allai effeithio ar ansawdd aer yng Nghymru.

Mae adran 11(1)(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru mewn rheoliadau. Gall Gweinidogion Cymru ond dynodi person sy'n bodloni'r diffiniad o "awdurdod datganoledig yng Nghymru" yn adran 157A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Golyga hyn y gall Gweinidogion Cymru ddynodi corff yn awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru os yw'n awdurdod cyhoeddus (i) y mae ei swyddogaethau'n arferadwy mewn perthynas â Chymru'n unig, a (ii) bod y swyddogaethau hynny'n rhai nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Mae awdurdod cyhoeddus yn cael ei ddiffinio yn adran 157(A)(8) fel "corff, swydd neu ddeiliad swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus".

Mae Adran 11(3) yn creu pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru y mae'n rhaid iddynt eu defnyddio wrth gyflawni eu dyletswydd i roi sylw i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol ac wrth arfer unrhyw swyddogaethau sydd ganddynt, o dan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

**Diben a bwriad y polisi**

Nid oes gennym gynlluniau i arfer y pŵer gwneud rheoliadau i awdurdodau lleol yng Nghymru ac “awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru” roi sylw i’r polisïau sydd wedi’u cynnwys yn y strategaeth ansawdd aer genedlaethol wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus a allai effeithio ar ansawdd aer yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd. Rydym yn fodlon mai awdurdodau lleol yng Nghymru a ddylai ystyried y strategaeth bresennol.

Mae'r pŵer gwneud rheoliadau hwn yn rhoi’r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr yn y dyfodol os a phan fo hynny'n briodol, megis pe bai awdurdod newydd yn cael ei greu yng Nghymru. Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd 2021 fewnosod Adran 81A yn Neddf yr Amgylchedd 1995. Mae'r adran newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yn Lloegr ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol eraill (y gellir eu dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau) roi sylw i strategaeth ansawdd aer Lloegr wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus a allai effeithio ar ansawdd aer. Rydym yn gwneud darpariaeth gyfatebol mewn perthynas â Chymru er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru'r un hyblygrwydd â Gweinidogion Llywodraeth y DU.

Mae adran 88 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn cynnwys pŵer i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas â’r pŵer a’r dyletswyddau a osodwyd arnynt o dan Ran 4 o’r Ddeddf hono. Os oes "awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru” yn cael ei ddynodi, dylai’r canllawiau hyn ymestyn i’r awdurdod hwnnw hefyd. Byddwn yn gweithio’n agos gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol eraill yng Nghymru i ddatblygu’r strategaeth ansawdd aer genedlaethol ac unrhyw ganllawiau perthnasol.

**Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM)**

| Adran | Ffurf | Cynnig | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 15 | Cyfarwyddyd | Diwygio pwerau cyfarwyddo presennol Gweinidogion Cymru. | Dim gweithdrefn |

**Disgrifiad o'r pŵer**

Mae Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn egluro dyletswyddau rheoli ansawdd aer lleol (LAQM) awdurdodau lleol. Mae adran 15 o'r Bil yn diwygio adran 85 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 sy'n amlinellu pwerau cyfarwyddo presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag LAQM. Mae'r gwelliant yn ategu adran 14 o'r Bil drwy ychwanegu darpariaeth i alluogi Gweinidogion i gyhoeddi cyfarwyddyd pe bai awdurdod lleol yn methu â chyflawni mesur neu fodloni safon neu amcan ansawdd aer erbyn y dyddiad a nodir mewn Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (AQAP).

**Diben a bwriad y polisi**
Dyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer y drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol yw iddi weithredu mewn ffordd ragweithiol ac ataliol, gan ganolbwyntio mwy ar iechyd y cyhoedd. Trwy’r Bil, rydym yn gwella ac yn cryfhau’r fframwaith deddfwriaethol i helpu i gyflawni’r amcanion hyn a sicrhau bod unrhyw broblemau ansawdd aer lleol sy’n cael eu nodi yn cael eu gwella yn gyflym.

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru’r opsiwn i gyfarwyddo awdurdodau lleol i gymryd camau i fynd i'r afael â llygredd pe baent yn methu â chyflawni eu dyletswyddau'n ddigonol. Fodd bynnag, y bwriad yw i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio fel dewis olaf, a dim ond pe bai ymdrechion i weithio gydag awdurdodau lleol i atal dyddiadau gweithredu a chydymffurfio â mesur rhag cael eu methu yn aflwyddiannus y byddai’n cael ei ddefnyddio.

## Rheoli mwg

| Adran | Ffurf | Cynnig | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 16(2) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i atal dros dro neu lacio Atodlen 1A neu adran 19F(1) o Ddeddf Aer Glân 1993. | Cadarnhaol |
| Atodlen 1, para (4) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i amnewid symiau isaf ac uchaf y gosb ariannol a all gael ei rhoi o dan atodlen 1A o Ddeddf Aer Glân 1993. | Cadarnhaol |
| Atodlen 1, para (5) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio sail gwrthwynebiad i gosbau ariannol o dan Atodlen 1A. | Cadarnhaol |
| 17 | Canllawiau | Pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas ag ardaloedd rheoli mwg. | Dim gweithdrefn |

### Disgrifiad o'r pŵer

Amcan Llywodraeth Cymru yw gwella’r defnydd o ddeddfwriaeth rheoli mwg, a’r modd y caiff ei gweithredu, er mwyn lleihau llygredd aer a’i effeithiau ar iechyd er budd cenedlaethau presennol a chenedlaethau’r dyfodol. Mae’r Bil yn cryfhau’r darpariaethau rheoli mwg presennol yn Neddf Aer Glân 1993 ac mae’n cyflwyno cosbau ariannol sifil i ddisodli’r sancsiynau troseddol presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol pan fo mwg yn cael ei allyrru o simnai mewn ardal rheoli mwg.

Rydym yn cynnig diddymu nifer o adrannau o Ddeddf Aer Glân 1993 a’u disodli ag adrannau newydd, wedi'u hailddatgan. O ganlyniad, bydd sawl pŵer gwneud rheoliadau newydd yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru, sef:

- Mae adran 16(2) o’r Bil yn mewnosod adran 19H yn Neddf Aer Glân 1993. Mae adran 19H(1) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, atal neu lacio Atodlen 1A i'r Ddeddf honno (cosb am allyrru mwg); neu adran 19F(1) o'r Ddeddf honno (troseddau sy'n ymwneud â chaffael a gwerthu tanwydd).
- Mae Atodlen 1, paragraff (4) i’r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio symiau isaf ac uchaf y gosb ariannol a osodir ym mharagraff 3(1) neu baragraff 3(2) o Atodlen 1A i Ddeddf Aer Glân 1993. Mae Atodlen 1A yn gosod y cosbau sifil am allyrru mwg mewn ardaloedd rheoli mwg. Ar hyn o bryd, mae paragraff 3(1) yn pennu lefel isaf y gosb ariannol ar £175 ac mae paragraff 3(2) yn pennu lefel uchaf y gosb ar £300.

- Mae Atodlen 1, paragraff (5) i'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio seiliau gwrthwynebiad y gellir eu cynnig i gosbau ariannol ym mharagraff 4 o Atodlen 1A i Ddeddf Aer Glân 1993.
- Mae adran 17 yn mewnosod adran 28B yn Neddf Aer Glân 1993. Mae'r adran hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer swyddogaethau'r awdurdod o dan y Rhan hon. Bydd y canllawiau hyn yn cynorthwyo awdurdodau lleol wrth drosglwyddo i drefn sancsiynau sifil.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno darpariaethau tebyg yn Neddf yr Amgylchedd 2021 (Deddf 2021). Mae prif ddarpariaethau Deddf 2021 yn disodli'r drosedd o allyrru mwg o simnai mewn ardal rheoli mwg â threfn cosbau sifil sy'n cynnwys dileu amddiffyniadau statudol a oedd yn amharu ar brosesau gorfodi, a dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried unrhyw ganllawiau rheoli mwg a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Diben a bwriad y polisi**

Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i arfer y pŵer gwneud rheoliadau o dan adran 16(2) o'r Bil gan nad oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i atal neu lacio gweithrediad Atodlen 1A i'r Ddeddf Aer Glân 1993 nac adran 19(F)(1) o'r Ddeddf honno sy'n darparu ar gyfer troseddau yn ymwneud â chaffael a gwerthu tanwydd.

Yn yr un modd, nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i ddiwygio'r cosbau ariannol isaf ac uchaf y gellir eu rhoi o dan baragraff 3 o Atodlen 1A i'r Ddeddf Aer Glân 1993 ar gyfer allyrru mwg mewn ardaloedd rheoli mwg, ac nid oes cynlluniau i ddiwygio'r seiliau dros wrthwynebu cosbau ariannol chwaith. Ystyrir bod lefelau presennol y cosbau a'r seiliau dros wrthwynebu'n addas i'r diben ar hyn o bryd. Os bydd unrhyw fwriad yn y dyfodol i wneud gwelliannau o'r fath, byddai ymgynghoriad cyhoeddus ac asesiad effaith llawn ar y cynigion. Mae mesurau diogelu ychwanegol ar waith gan fod y weithdrefn gadarnhaol yn berthnasol i'r pwerau gwneud rheoliadau.

Bydd canllawiau yn nodi disgwyliadau Gweinidogion Cymru ar gyfer gweithredu deddfwriaeth rheoli mwg newydd a deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes i gefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru wrth arfer eu swyddogaethau ac i annog cysondeb.

Bydd y canllawiau'n cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, ac ymgynghorir arnynt. Ar hyn o bryd, rhagwelir bod y canllawiau'n debygol o gynnwys:

- Cyngor a gwybodaeth am sut i weithredu dull addysgol a arweinir gan gyngor i annog newid ymddygiad. Gallai hyn dynnu sylw at y dulliau arfer gorau ar gyfer llosgi tanwyddau awdurdodedig a chynnal a chadw cyfarpar.

- Y broses ar gyfer sut y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru hysbysu Gweinidogion Cymru pan fo Gorchymyn Rheoli Mwg (SCO) newydd wedi'i gyhoeddi neu pan gaiff unrhyw newidiadau eu gwneud i Ardaloedd Rheoli Mwg (SCAs) presennol. Gallai hyn adlewyrchu'r dull a ddefnyddir ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMAs) fel rhan o LAQM.
- Canllawiau ar sut a phryd y gellid gweithredu ardal rheoli mwg. Gallai ystyried yr angen am ardal rheoli mwg fod yn rhan o'r adolygiad blynyddol o ansawdd aer y bydd awdurdodau lleol yn ei gynnal drwy eu dyletswyddau LAQM.
- Gwybodaeth am sut y gellid cymhwyso'r drefn sancsiynau sifil newydd. Byddai hyn yn amlinellu'r angen i ddefnyddio dull addysgol a arweinir gan gyngor yn gyntaf, gyda'r defnydd o gosbau ariannol ar gael fel dewis olaf.

I ddarparu cymorth pellach, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i ddeall y dull gorau ar gyfer deunyddiau cyfathrebu er mwyn sicrhau cysondeb. Yn ogystal, byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer creu offeryn chwilio ar-lein i alluogi defnyddwyr a busnesau i ganfod cyfeiriadau mewn Ardaloedd Rheoli Mwg yn gyflym.

**Cynlluniau codi tâl ar gefnffyrdd**

| Adran | Ffurf | Cynnig | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 19 | Gorchymyn | Mae adran 167 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn pennu'r amgylchiadau lle mae Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud Gorchymyn o dan adran 168 o'r Ddeddf ar gyfer cynllun codi tâl ar gefnffyrdd. Mae adran 169 o'r Ddeddf Trafnidiaeth yn rheoli'r weithdrefn. Mae adran 19 o'r Bil yn ymestyn yr amgylchiadau lle mae Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud Gorchymyn o'r fath. | Dim gweithdrefn |
| Atodlen 2 paragraff 6 | Rheoliadau | Pwerau gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth yn ymwneud â'r canlynol-<br>(a) pryd y mae'r un cynllun yn cael ei ystyried yn gynllun sy'n parhau i fod mewn grym<br>(b) pryd y mae cynllun gwahanol yn cael ei ystyried, neu ddim yn cael ei ystyried, yn gynllun sy'n dod i rym at ddibenion penderfynu pryd mae'r cyfnod 10 mlynedd a bennir yn is-baragraff (2) o baragraff 6 yn dechrau neu'n dod i ben<br>(c) penderfynu sut i gymhwyso enillion net ar ôl i'r cyfnod deg mlynedd ddod i ben<br>(d) cynyddu'r cyfnod deg mlynedd trwy reoliadau. | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pŵer**

O ganlyniad i adran 167 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (Deddf 2000), ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru bŵer i gyflwyno cynlluniau codi tâl mewn perthynas â chefnffyrdd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r pŵer wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd gan adran 167(2) i amgylchiadau lle mae'r ffordd y cynigir cyflwyno cynllun codi tâl ar ei chyfer yn mynd dros bont neu drwy dwnnel sy'n 600 metr o hyd o leiaf, neu os yw awdurdodau traffig penodol eraill wedi gofyn am greu cynllun codi tâl ar y cyd.

Mae adran 19 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i ymestyn pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 167 o Ddeddf 2000 er mwyn eu galluogi i greu cynlluniau at ddibenion lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer yng nghyffiniau ffordd. Yn unol â phwerau presennol Gweinidogion Cymru yn adran 168 o Ddeddf 2000, mae cynlluniau o'r fath yn cael eu gwneud trwy Orchymyn.

Mae Atodlen 2 i'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer ac mewn perthynas â defnyddio enillion o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a wnaed gan Weinidogion Cymru ar ffurf diwygiadau i Atodlen 12 i Ddeddf 2000.

Mae paragraff 6 o Atodlen 2 i'r Bil yn mewnosod paragraffau 14 a 15 newydd i Atodlen 12 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Pan fo cynllun codi tâl ar gefnffordd yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 167 (3) o Ddeddf 2000 yn gyfan gwbl neu'n rhannol at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer, mae paragraff 14 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad mewn perthynas ag enillion net y cynllun a'i gyflwyno gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl llunio'r cynllun.

Mae paragraff 15 yn gwneud darpariaeth ar gyfer enillion net cynllun codi tâl ar gefnffyrdd a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 167(3) nad yw wedi'i wneud (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer. Mae paragraff 15 yn ail-greu'r darpariaethau presennol ym mharagraff 13 o Atodlen 12 i Ddeddf 2000 (sydd wedi'i ddiwygio gan baragraff 5 o Atodlen 2 i'r Bil fel ei fod ond yn berthnasol i gynlluniau codi tâl ar gefnffyrdd sy'n cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol).

O dan baragraff 15(2), os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud cynllun o dan adran 167(3)(a) (h.y. lle mae'r ffordd yn mynd dros bont neu drwy dwnnel sy'n 600 metr o hyd o leiaf), dim ond cyfnod o 10 mlynedd o'r dyddiad pan ddaw'r cynllun i rym yw hyd darpariaethau paragraff 15(1) (sy'n cyfyngu ar gymhwyso enillion i bolisïau neu gynigion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth).

O dan baragraff 15(3), mae Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio rheoliadau i nodi o dan ba amgylchiadau y bydd cynllun yn cael ei ystyried yn un sy'n parhau i fod mewn grym er gwaethaf amrywiad y cynllun neu'r broses o ddirymu a disodli'r cynllun (gydag addasiadau neu heb addasiadau) at ddibenion penderfynu pryd mae'r cyfnod 10 mlynedd ym mharagraff 15(2) yn dechrau neu'n gorffen.

O dan baragraff 15(4), os nad yw paragraff 15(1) yn berthnasol bellach i gynllun a wnaed o dan adran 167(3)(a) o Ddeddf 2000, dim ond mewn ffordd a nodwyd neu a benderfynwyd yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru y mae cyfran Gweinidogion Cymru o enillion net y cynllun yn gallu cael ei defnyddio. Yn ôl paragraff 15(5), gall rheoliadau a wnaed o dan baragraff 15(4) ddisodli'r cyfnod deg mlynedd a nodir ym mharagraff 15 (2) â chyfnod hirach. Mae'r holl reoliadau yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae’n hanfodol ein bod yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnom i weithredu mewn ffordd sylweddol, lle bo angen, er mwyn ymateb i faterion ansawdd aer lleol cyson ar ein ffyrdd. Mae Parthau Aer Glân, neu Barthau Allyriadau Isel, yn gallu lleihau allyriadau sy’n llygru o gerbydau mewn ffordd sylweddol. Mae Parth Aer Glân, neu Barth Allyriadau Isel, yn diffinio ardal lle mae camau penodol yn cael eu rhoi ar waith i wella ansawdd aer. Gellir codi tâl ar fodurwyr sy’n gyrru cerbydau nad ydynt yn bodloni safonau allyriadau a gyhoeddwyd.

Fel y nodir uchod, mae’r Bil yn creu pwerau newydd sy’n golygu bod modd cyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o dan Ddeddf 2000, gan hwyluso’n well gallu Gweinidogion Cymru i gyflwyno Parthau Aer Glân ar gefnffyrdd lle bo angen. Pan fydd cynlluniau o'r fath yn cael eu cyflwyno, bydd rheol neilltuo ddiwygiedig yn galluogi i enillion net sy'n deillio o daliadau gael eu defnyddio ar gyfer mesurau amrywiol nad ydynt wedi'u cyfyngu i bolisïau a chynigion trafnidiaeth, gan ganiatáu mwy o gyfle i gefnogi gwelliant ansawdd aer ymhellach.

Law yn llaw â hyn, rydym yn bwriadu datblygu fframwaith ar gyfer system codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd sy’n deg a chyfartal fel rhan o becyn ehangach o fesurau i wella dewisiadau teithio. Er y dylai’r fframwaith ystyried pwerau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o dan y Bil, bydd cwmpas y ddogfen yn ehangach, ac ni fydd felly yn ofyniad statudol o dan delerau’r Bil.

Bydd pwerau presennol awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o dan Ran III o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn cael eu cychwyn law yn llaw â darpariaethau'r Bil hefyd.

Ni fydd y newidiadau deddfwriaethol yn arwain at gyflwyno cynlluniau codi tâl ar gefnffyrdd ar unwaith gan nad oes ymrwymiad i unrhyw gynllun penodol ar hyn o bryd. Felly, nid oes unrhyw orchmynion cynllun yn cael eu cynnig ar hyn o bryd ar ôl i'r pwerau newydd ddod i rym, ynghyd â chychwyn pwerau codi tâl ar gefnffyrdd a phwerau codi tâl awdurdodau lleol o dan Ddeddf 2000. Bydd penderfyniadau o ran creu Parthau Aer Glân yn seiliedig ar nifer o faterion, gan gynnwys a yw tystiolaeth yn cefnogi cyflwyno Parthau Aer Glân ar gefnffyrdd fel ffordd sylweddol o sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau neu dargedau llygryddion aer statudol.

Bydd pwerau i wneud rheoliadau o dan baragraff 15 o Atodlen 12 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000, fel y’u mewnosodir gan baragraff 6 o Atodlen 2 i’r Bil, yn berthnasol dim ond pan fydd cynlluniau codi tâl yn cael eu llunio. Felly, nid oes unrhyw gynigion ar hyn o bryd i wneud Rheoliadau. Pan fydd rheoliadau o’r fath yn cael eu gwneud, byddant yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

**Troseddau Cerbydau’n Segura**

| Adran | Ffurf | Cynnig | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 21(2)(a) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu amrediad ariannol ar gyfer Cosbau Penodedig mewn perthynas â'r drosedd o gerbydau’n segura. | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pŵer**

Mae adran 21(2) o’r Bil yn creu pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi, drwy reoliadau, ystod ariannol ar gyfer Cosbau Penodedig mewn perthynas â'r drosedd o gerbydau’n segura. Byddai hyn yn rhoi'r gallu i awdurdodau lleol bennu swm pob Cosb Benodedig o fewn yr ystod, fesul achos. Mae hyn yn ychwanegol at y pŵer presennol sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod un swm cosb benodedig mewn perthynas â cherbydau llonydd yn segura.

**Diben a bwriad y polisi**

Polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru yw gwella’r amgylchedd aer. Mae hyn yn cynnwys lleihau allyriadau trafnidiaeth ar ochr y ffordd. Rydym am leihau'r risg i dderbynyddion bregus drwy fynd i'r afael â cherbydau’n segura yn ddiangen mewn mannau problemus, yn enwedig mewn lleoliadau y tu allan i ysgolion lle mae plant a phobl ifanc; lleoliadau gofal iechyd (ysbytai, meddygfeydd teulu a chlinigau); a chartrefi gofal preswyl.

Mae yna dystiolaeth bod y cosbau ariannol presennol yn rhy isel i atal pobl rhag cyflawni’r drosedd o gerbydau’n segura ac nad yw’r taliadau yn ei gwneud yn hyfyw i awdurdodau lleol flaenoriaethu camau gorfodi. Er y cydnabyddir bod yn rhaid i gosbau fod yn gymesur, mae’r gosb benodedig o £20 ar gyfer y drosedd o gerbydau’n segura yn isel iawn. Ar hyn o bryd, nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw hyblygrwydd ar gyfer lefel y gosb ariannol y gallan nhw ei chyhoeddi. Felly, rydym yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol allu dewis lefel y gosb ariannol i’w chyflwyno ym mhob achos ar sail ystod a fydd yn cael ei phennu mewn rheoliadau. Byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol ganolbwyntio eu hymdrechion ar leihau nifer y cerbydau sy’n segura mewn mannau problemus, fel hybiau trafnidiaeth trefi neu ddinasoedd neu wrth ymyl eiddo sy’n dioddef nifer fawr o gerbydau sy’n segura yn ddiangen. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion i addysgu neu hysbysu gyrwyr cerbydau, yn ogystal ag ymdrechion i gyflwyno system wrth-segura trwy ddefnyddio cosbau ariannol (fel dewis olaf).

Bydd y pŵer presennol i roi cosb benodedig am gerbydau'n segura (o dan adran 87 ac Atodlen 11 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995) yn parhau, ac ychwanegir y pŵer newydd i Weinidogion Cymru ragnodi, drwy reoliadau, amrediad ariannol ar gyfer cosbau penodedig. Rydym yn rhagweld, yn amodol ar ymgynghoriad, mai £40-£80 yw'r amrediad a fyddai'n cael ei bennu. Credwn y bydd hyn yn darparu cosb fwy effeithiol, gan gynyddu atal segura ac felly'n cyfrannu at ostyngiad yn y risg sy'n gysylltiedig ag allyriadau sy'n deillio o segura diangen.

Gan ddefnyddio pwerau gwneud canllawiau presennol yn adran 88(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, y bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar arfer eu swyddogaethau gwrth-segura i fynd i'r afael ag effeithiau cerbydau'n segura ar yr amgylchedd aer. Felly, ni fydd y canllawiau'n rhan o'r Bil, ond byddant yn ategu a chefnogi'r cynnig penodol hwn yn y Bil.

Yn ystod 2024, byddwn yn ymgynghori'n llawn ar y rheoliadau a'r canllawiau mewn perthynas â segura. Bydd y rheoliadau a'r canllawiau yn cael eu datblygu fel pecyn. Y bwriad ar hyn o bryd yw y byddai'r rheoliadau'n dod i rym a'r canllawiau'n cael eu cyhoeddi erbyn mis Mawrth 2025.

Mae'n amlwg bod cynnwys y canllawiau'n ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, ond rydym yn rhagweld y bydd y canllawiau'n cynnwys cyngor ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwrth-segura (y mae gan awdurdodau lleol, o dan Reoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003, y pŵer i'w gorfodi eisoes); gan gynnwys cyngor ar weinyddu'r drefn gosbau newydd. Bydd y canllawiau'n disgrifio sut y gellir cynnwys mesurau gwrth-segura mewn pecyn o fesurau cyflenwol hefyd, oll â'r nod o wella'r amgylchedd aer.

Yn fwy penodol, gallai unrhyw ganllawiau o'r fath a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ganolbwyntio ar y canlynol:

- Cynghori awdurdodau lleol ar godi ymwybyddiaeth o wrth-segura.
- Cynghori awdurdodau lleol ar y cysylltiadau rhwng ansawdd aer a sŵn/seinwedd a sut y gall gwella ansawdd aer arwain at fanteision mewn perthynas â seinwedd. O ran sŵn/seinwedd, mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi mai sŵn trafnidiaeth yw'r cyfrannwr amgylcheddol mwyaf ond un at salwch yng Ngorllewin Ewrop, ar ôl llygredd aer. Annifyrrwch ac aflonyddwch cwsg yw'r prif effeithiau (gyda sgil-effeithiau ar ddysgu a chynhyrchiant), ond mae'r effeithiau'n cynnwys mwy o risg o bwysedd gwaed uchel a chanlyniadau cysylltiedig (e.e. strôc) a chlefyd cardiofasgwlaidd hefyd. Mae rhai grwpiau, megis pobl ag awtistiaeth neu blant ag anawsterau dysgu (neu anawsterau canolbwyntio), yn fwy tebygol o gael eu heffeithio nag eraill. Yn hyn o beth, mae yna fudd amgylcheddol ychwanegol sy'n deillio o'r ddarpariaeth benodol hon yn y Bil.

- Cynghori awdurdodau lleol ynghylch canolbwyntio ar fannau problemus a defnyddio cosbau ariannol uwch amrywiol mewn amgylchiadau lle mae angen gwneud hynny, er enghraifft, lle mae grwpiau agored i niwed yn wynebu risg arbennig (megis plant mewn ysgolion, y rhai mewn lleoliadau gofal iechyd neu gartrefi gofal) neu mewn perthynas â throseddau a ailadroddir.
- Cyfeirio pobl at adnoddau sy'n bodoli eisoes, megis y pecynnau cymorth gwrth-segura presennol ac adnoddau newydd (megis pecynnau cymorth gwrth-segura ar gyfer lleoliadau gofal iechyd) a Phecynnau Cymorth Aer Glân eraill.
- Ymgorffori ymyriadau gwrth-segura mewn pecyn ehangach o fesurau i fynd i'r afael ag ansawdd aer a sŵn, megis annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol; hyrwyddo'r defnydd o gerbydau allyriadau isel; hyrwyddo Parthau Dim Segura mewn ardaloedd cyhoeddus lle mae pobl agored i niwed e.e. ysgolion ac adeiladau clinigol; creu seilwaith gwefru cerbydau trydan; hyrwyddo'r defnydd o danwyddau glanach; defnyddio polisi cynllunio gofodol fel ffordd o leihau allyriadau a lleihau cysylltiad â llygredd aer a sŵn; ac annog newid mewn ymddygiad drwy ymgyrchoedd gwybodaeth cyhoeddus etc. Yn y ffyrdd hyn, gall polisi gwrth-segura gael ei integreiddio mewn polisïau a chamau newid ymddygiad amrywiol. Cefnogir hyn yn arbennig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall mesurau gwrth-segura penodol fod fwyaf effeithiol os cânt eu cynnwys mewn pecyn o fesurau gwahanol ond cyflenwol, i gyd gyda'r diben o atal neu leihau llygredd aer a sŵn. Yn y cyd-destun hwn, gall fod potensial i gyflawni gostyngiadau cronnus mewn allyriadau, dros amser, ar draws casgliad o wahanol fesurau a gymhwysir ar y cyd yn lleol ac yn genedlaethol.

**Y Strategaeth Seinweddau Genedlaethol: Newid y cyfnod adolygu ar gyfer y strategaeth seinweddau, mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu sŵn**

| Adran | Ffurf | Cynnig | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 22(7) | Rheoliadau | Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau’n newid hyd y cyfnodau gofynnol ar gyfer adolygu'r strategaeth seinwedd. | Cadarnhaol |
| 24(1) | Rheoliadau | Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn newid hyd y cyfnodau sy'n gysylltiedig â'r mapiau sŵn strategol. | Negyddol |
| 24(2) | Rheoliadau | Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn newid hyd y cyfnodau sy'n gysylltiedig â chynlluniau gweithredu sŵn. | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pŵer**

Mae adran 22 o’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth seinweddau a’i hadolygu bob 5 mlynedd. Mae adran 22(7) yn creu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n newid y cyfnod gofynnol ar gyfer adolygu'r strategaeth seinweddau.

Mae adran 24(1) o’r Bil yn creu pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio rheoliad 7 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, drwy reoliadau, i newid y cyfnodau gofynnol ar gyfer gwneud a mabwysiadu mapiau sŵn strategol.

Mae adran 24(2) o’r Bil yn creu pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio rheoliad 17 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, drwy reoliadau, i newid y cyfnod gofynnol ar gyfer cynnal adolygiadau o gynlluniau gweithredu sŵn.

**Diben a bwriad y polisi**

Ers 2013, Mae Cynllun Gweithredu Sŵn (neu Sŵn a Seinwedd) Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddogfen bolisi ganolog yn ymwneud â sŵn yn yr awyr a’r amgylchedd sŵn, gan weithredu fel ein strategaeth seinweddau genedlaethol. Mae’n datgan ein nod yn y maes hwn, sef sicrhau seinweddau priodol ar sail yr amgylchedd sŵn priodol yn y lle iawn ar yr amser iawn. Mae’n gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddilyn y bum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) wrth gyflawni gweithgareddau yn y maes hwn. Hefyd, mae’n ymrwymo Llywodraeth Cymru i sicrhau bod camau gweithredu yn ymwneud â llygredd sŵn ac aer yn fwy cydgysylltiedig.

Mae Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynlluniau gweithredu ar sŵn ar gyfer ffyrdd mawr, rheilffyrdd mawr a chrynodrefi, wedi'u llywio'n rhannol gan fapiau sŵn strategol, bob 5 mlynedd. Yn 2013, 2018 a 2023, mae Gweinidogion Cymru wedi dewis cyflawni'r ddyletswydd hon o fewn un cynllun cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer sŵn a seinwedd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y Cynllun hwn yn gyfyngedig i ffyrdd mawr, rheilffyrdd mawr a chrynodrefi, ac nid yw'n cynnwys llawer o faterion sydd o ddiddordeb cynyddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau megis sŵn o dronau, pympiau gwres a thân gwyllt, sŵn sy'n effeithio ar weithwyr o bell, a thawelwch gwledig. Ein bwriad yw gosod y Cynllun ar sylfaen gyfreithiol fwy cynhwysfawr, gan sicrhau y bydd y Cynllun Sŵn a Seinwedd diwygiedig sy'n cael ei lunio yn 2023 (y bwriadwn ymgynghori arno dros yr haf) yn cael ei gydnabod fel y strategaeth genedlaethol gyntaf ar seinweddau at ddibenion y Bil hwn.

Mae'r cylchoedd adolygu 5 mlynedd presennol ar gyfer cynlluniau gweithredu sŵn, a thrwy oblygiad ar gyfer y strategaeth seinweddau genedlaethol, yn cyfateb yn fras i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol, y mae'n rhaid ei hadolygu yn 2023 a phob 5 mlynedd wedi hynny. Ar hyn o bryd, mae'r ddau yn disgyn tua hanner ffordd rhwng etholiadau'r Senedd. Mae hyn yn caniatáu iddynt gael eu llywio gan y Rhaglen Lywodraethu, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ac ati, ond nid yw'n eu gosod mor agos at yr etholiad nesaf fel ei bod yn afrealistig i'r rhan fwyaf o'r polisïau sydd ynddynt gael eu gweithredu gan y llywodraeth bresennol.

Cyn belled â bod etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd bob 5 mlynedd, nid ydym yn gweld unrhyw reswm i geisio newid y cylchoedd adolygu presennol trwy arfer y pwerau gwneud rheoliadau a nodir uchod. Fodd bynnag, os bydd etholiad eithriadol yn arwain at orfod adolygu a mabwysiadu'r cynlluniau a'r strategaethau'n rhy fuan ar ôl etholiad i allu cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu sydd i ddod, neu mor hwyr fel nad oes modd ymarferol i'r weinyddiaeth sy'n eu cyhoeddi eu gweithredu, byddem yn rhagweld y bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pwerau hyn i wneud rheoliadau, gyda chymeradwyaeth y Senedd, i newid y cylchoedd adolygu fel eu bod yn cyd-fynd â'r cylch etholiadol newydd.

Yn ogystal, mae deddfwriaeth bresennol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau penodol (e.e. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol) gael eu cynhyrchu ar adegau penodol i gyd-fynd ag etholiadau'r Senedd. Os cynhelir etholiad eithriadol, efallai na fydd amseriad y strategaeth seinweddau genedlaethol a mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu cysylltiedig yn cyd-fynd â'r adroddiadau hyn, felly mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r cyfnodau adolygu i sicrhau eu bod yn gyson.

**Y Strategaeth Seinweddau Genedlaethol: Dyletswydd awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru i ystyried y strategaeth genedlaethol ar seinweddau**

| Adran | Ffurf | Cynnig | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 23(3) | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n dynodi person yn awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru y mae'n rhaid iddo roi sylw i'r polisïau yn y strategaeth genedlaethol ar seinweddau | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pŵer**

Mae adran 23 o’r Bil yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol ac “awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru” roi sylw i'r polisïau sydd yn y strategaeth genedlaethol ar seinweddau (ein Cynllun Sŵn a Seinwedd 2023-2028, yr ydym yn bwriadu ymgynghori arno dros yr haf) wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus a allai effeithio ar seinweddau yng Nghymru. Mae adran 23(3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru mewn rheoliadau, ond dim ond person sy'n bodloni'r diffiniad o “awdurdod datganoledig yng Nghymru” yn adran 157A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 y gallant ei ddynodi. Golyga hyn y gall Gweinidogion Cymru ddynodi corff yn awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru os yw'n awdurdod cyhoeddus (i) y mae ei swyddogaethau'n arferadwy mewn perthynas â Chymru’n unig, a (ii) bod y swyddogaethau hynny’n rhai nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Mae awdurdod cyhoeddus yn cael ei ddiffinio yn adran 157(A)(8) fel “corff, swydd neu ddeiliad swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus”.

**Diben a bwriad y polisi**

Ers 2013, mae Cynllun Gweithredu Sŵn (neu Sŵn a Seinwedd) Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddogfen bolisi ganolog yn ymwneud â sŵn yn yr awyr a’r amgylchedd sŵn, gan weithredu fel ein strategaeth seinweddau genedlaethol. Mae’n datgan ein nod yn y maes hwn, sef sicrhau seinweddau priodol ar sail yr amgylchedd sŵn priodol yn y lle iawn ar yr amser iawn. Mae’n gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddilyn y bum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) wrth gyflawni gweithgareddau yn y maes hwn. Hefyd, mae’n ymrwymo Llywodraeth Cymru i sicrhau bod camau gweithredu yn ymwneud â llygredd sŵn ac aer yn fwy cydgysylltiedig.

Ar hyn o bryd, effaith y Bil yw mai dim ond awdurdodau lleol sy'n gorfod ystyried y polisïau yn y strategaeth genedlaethol ar seinweddau (ein Cynllun Sŵn a Seinwedd) wrth arfer unrhyw swyddogaethau a allai effeithio ar seinweddau yng Nghymru. Gall “awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru” gael eu hychwanegu drwy reoliadau os bydd Gweinidogion Cymru’n penderfynu bod angen gwneud hynny.

Mae'r pŵer sy'n cael ei ddefnyddio yma'r un fath â'r pŵer sy'n cael ei ddefnyddio yn adran 11(1), mewn perthynas â'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i arfer y pŵer gwneud rheoliadau hwn yn ystod y Senedd hon. Rydym wedi cynnwys awdurdodau lleol yn y rhestr bresennol o gyrff y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r polisïau yn y strategaeth seinweddau genedlaethol yn y Bil, sy'n gyson â'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol.

Mae'r pŵer gwneud rheoliadau hwn yn rhoi’r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o gyrff y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r polisïau yn y strategaeth seinweddau genedlaethol, yn y dyfodol os a phan fo hynny'n briodol, megis pe bai awdurdod newydd yn cael ei greu yng Nghymru. Mae hyn yn gyson â'r dull a gymerwyd mewn perthynas â'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol.

**Dyletswydd allweddol o dan y Bil**

**Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer**

| Adran | Cynnig |
|---|---|
| 8 | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i godi ymwybyddiaeth o lygredd aer. |

**Disgrifiad o'r ddarpariaeth**

Mae adran 8 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o (a) y risgiau i iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol a achosir gan lygredd aer a (b) ffyrdd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae yna fwlch yn y dirwedd ddeddfwriaethol yn ymwneud â gwybodaeth am ansawdd aer ac ymwybyddiaeth ohono. Mae Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 yn pennu gofynion i Weinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth am grynodiadau llygryddion, croesi trothwy terfynau cyfreithiol a'r effeithiau iechyd a/neu amgylcheddol a allai ddeillio o hynny. Fodd bynnag, mae disgwyliadau yn ymwneud â gwybodaeth am ansawdd aer, prosesau rheoli a chamau gweithredu wedi cynyddu'n sylweddol ers cyflwyno'r rheoliadau hyn.

Diben y ddyletswydd hon yw sicrhau bod ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o risgiau, ffynonellau a chamau lliniaru llygredd aer yn cael eu cynnal. Mae natur eang y cynnig yn galluogi amrywiaeth eang o opsiynau posibl ar gyfer gweithredu ynghyd â hyblygrwydd os bydd gofynion gwybodaeth ac ymwybyddiaeth yn newid dros amser.

Er mwyn manteisio'n llawn ar effeithiolrwydd y ddyletswydd hon, rydym yn bwriadu cyd-gynllunio cynllun cyflenwi gyda rhanddeiliaid i sicrhau camau â ffocws, ac i alluogi craffu. Caiff y cynllun ei gyhoeddi o fewn blwyddyn i ddechrau, ac erbyn mis Mawrth 2025 fan bellaf. Y bwriad yw i gwmpas y cynllun cyflenwi adeiladu ar ymrwymiadau yn y Cynllun Aer Glân. Gallai'r cynllun gynnwys:

- Cynlluniau i annog, cefnogi a hyrwyddo mentrau lleol sy'n cynnwys cymunedau wrth gymryd camau mewn perthynas ag ansawdd aer.
- Gwelliannau i ddarpariaeth bresennol data ansawdd aer.

- Gwella darpariaeth adnoddau llygredd aer ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol a chleifion.
- Cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth penodol ar ansawdd aer ac ymwreiddio negeseuon ansawdd aer mewn ymgyrchoedd perthnasol eraill, gan fanteisio ar arbenigedd cyfathrebu a newid ymddygiad i lywio eu cynllun.
- Gwella a hyrwyddo gwybodaeth ynghylch camau y gellir eu cymryd i leihau crynodiadau o lygredd aer, a lleihau amlygiad iddo. Gall hyn gynnwys atgyfeirio pobl at wybodaeth bresennol a ddatblygwyd gan sefydliadau eraill a allai fod yn negeswyr mwy priodol mewn rhai cyd-destunau.
- Adolygu'r wybodaeth bresennol am ffynonellau llygredd aer a'r effeithiau ar iechyd a'r amgylchedd, gan ystyried hygyrchedd a gofynion gwahanol grwpiau.

Gan fod hon yn ddyletswydd eang sy'n cefnogi'r holl bolisïau a chamau sy'n gysylltiedig â gwella ansawdd aer, gallai cynlluniau cyflenwi yn y dyfodol gael eu cynnwys yn y strategaeth ansawdd aer genedlaethol.